
YSGOL GYMRAEG LLUNDAIN

PROSBECTWS

PROSPECTUS

2026-2027



Annwyl Rieni a Gofalwyr

Croeso cynnes i Ysgol Gymraeg Llundain.

Mae Ysgol Gymraeg Llundain yn unigryw oherwydd mai hi yw'r unig ysgol yn y Deyrnas Unedig, y tu hwnt i Glawdd Offa, sy'n cynnig addysg Gymraeg llawn amser i blant rhwng 3 ac 11 mlwydd oed. Gobeithiwn y bydd y prosbectws hwn yn rhoi blas i chi ar fywyd ein hysgol hapus a byrlymus ni.

Cychwynwyd yr ysgol ym 1958 gan grŵp bychan o rieni a oedd yn awyddus i'w plant dderbyn addysg Gymraeg yn Llundain. Ymfalchiwn yn y ffaith fod yr ysgol yn parhau i ffynnu a'i bod wedi gosod y sylfaen i lawer i yrfa ddisglair. Ychydig flynyddoedd yn ôl, dathlom ein pen-blwydd yn 60 ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr at y 70!

Yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru yw sail yr addysg a gynigiwn tra ein bod hefyd yn cwmpasu ac yn hyrwyddo gwerthoedd Prydeinig. Rhannwn weledigaeth Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Does dim dwywaith bod pob plentyn yn unigryw. Ein nôd yw meithrin pob plentyn i gyrraedd ei lawn botensial o ba bynnag lefel y cychwynnodd. Ein swydd fel addysgwyr yw annog pob plentyn i fod yn ddinasyddion cyflawn ac hyderus sy'n gwybod y gwahaniaeth rhwng da a drwg.

Mae agwedd gadarnhaol y disgyblion tuag at ddysgu yn amlwg iawn; rydym yn eu hannog i ddatblygu meddyliau ymchwilgar gyda'r agwedd 'mi fedraf'. Ochr yn ochr â hyn, mae awyrgylch hapus a llawn gofal yr ysgol yn galluogi pob plentyn i fod y gorau y medrent fod. Tu hwnt i'r dosbarth, cynigiwn glybiau amrywiol sy'n meithrin sgiliau, diddordebau a thalentau.

Mae gennym lawer o gysylltiadau â Chymru – cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd; ein taith flynyddol fel teuluoedd i Wersyll yr Urdd, Llangrannog; cysylltiadau â chyn-rieni a theuluoedd; presenoldeb yn yr Eisteddfod Genedlaethol a'r plant yn llythyru â phlant yng Nghymru. Mae nifer o deuluoedd wedi symud i fyw i Gymru ac mae'r plant wedi integreiddio yn rhwydd i mewn i addysg cyfrwng Cymraeg, ac mae'r plant sy'n mynd ymlaen i ysgolion uwchradd Saesneg yn trosglwyddo'n ddidrafferth.

Ni allwn redeg yr ysgol heb gymorth ariannol oddi wrth Llywodraeth Cymru, ffioedd a rhaglen barhaus o godi arian. Ond, ni wrthodir unrhyw blentyn ar sail anawsterau talu'r ffioedd. Gweler y rhan ar 'Ffioedd' isod.

Symudon i Ganolfan Gymunedol Hanwell ym Mwrdeistref Ealing ym mis Medi 2015. Rydym yng nghanol cymuned aml-ddiwylliannol fyrlymus sydd â hanes diddorol. Bu neb llai na Charlie Chaplin yn ddisgybl yma!

Cysylltwch â ni i drefnu ymweliad neu i ofyn cwestiwn am yr ysgol. Mae croeso cynnes Cymreig yn eich aros.

Yn gywir

Mrs Rhian Hughes-Ahmad, Pennaeth

Glenys Roberts - Cadeirydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Dear Parents and Carers

A very warm welcome to Ysgol Gymraeg Llundain (London Welsh School).

Ysgol Gymraeg Llundain is unique as it is the only school in the UK, outside Wales, to provide a full-time Welsh medium education for children between the ages of 3 and 11. We hope that this prospectus will provide a snapshot of life in our happy and vibrant school.

The school was started in 1958 by a small group of parents who were eager for their children to receive a Welsh education in London. We are proud that the school continues to thrive and that it has provided the foundation for many a successful career. A few years ago we celebrated our 60th birthday and we are looking forward to the 70th!

The Welsh language, culture and heritage form the foundation of our teaching whilst also embracing and promoting British Values. We share the Welsh Government's vision of a million Welsh speakers by 2050.

There is no denying that every child is unique. This is valued and celebrated in Ysgol Gymraeg Llundain. Our ambition is to nurture every child, enabling them to achieve well, regardless of their starting point. We also feel strongly that it is our job as educators to encourage children to become resilient, confident, well-rounded global citizens who know the difference between right and wrong.

A positive learning culture is evident throughout the school; we encourage our pupils to develop enquiring minds and a 'can do' attitude in all areas of the curriculum. Alongside this, we provide a caring and supportive environment meaning that every child is given the opportunity to be the very best they can be. Beyond the classroom, we offer a rich and varied range of clubs for children to develop a variety of skills, interests and talents.

We maintain many links with Wales; competing in the Urdd National Eisteddfod; our annual visit as families to the Urdd Centre in Llangrannog; contact with past parents and families; a presence in the National Eisteddfod and pen-pals in Wales. Families who have relocated to Wales and children have integrated easily into Welsh medium education, and students going into year 7 in English Schools transition seamlessly.

We cannot run the school without the financial support of the Welsh Government, fees and continuous fund raising. However, we do not refuse any child on the basis of difficulty in paying the fees. Please see the section on 'Fees' below.

In September 2015 we relocated to Hanwell Community Centre in the Borough of Ealing. We are at the heart of a thriving multi-cultural community which has an interesting history, most notably being that Charlie Chaplin was once a pupil here!

Please get in touch if you would like to visit or have any questions about the school. A warm Welsh welcome awaits you.

Yours sincerely

Mrs Rhian Hughes-Ahmad, Pennaeth

Glenys Roberts – Chair of the Board of Directors

CYNNWYS / CONTENTS

1. Trosolwg - tudalen 3 / *Overview - page 3*
2. Y Cwricwlwm - tudalen 4 / *The Curriculum - page 4*
3. Gweithio mewn Partneriaeth - tudalen 8 / *Working in Partnership - page 8*
4. Diogelu Disgyblion - tudalen 10 / *Keeping Pupils Safe - page 10*
5. Gwybodaeth Gyffredinol - tudalen 11 / *General Information - page 11*
6. Manylion Cyswllt - tudalen 14 / *Contact Details - page 14*

1. TROSOLWG / OVERVIEW

Ein Staff / *Our Staff*

Mrs Rhian Hughes-Ahmad
Pennath /*Headteacher*
Miss Catrin Jones
Athrawes Dosbarth /*Class teacher*
Miss Angharad Roberts
Arweinydd Blynyddoedd Cynnar / *Early Years Leader*
Ms Ruth Tremain
Gweinyddwraig a Chynorthwy-ydd Addysgu / *Administrator and Teaching Assistant*
Mr Aled G Roberts
Cymhorthydd Addysgu /*Teaching Assistant*

Ein Hethos / *Our Ethos*

Mae gan ein hysgol ethos cryf o annog ein disgyblion i bob tro anelu at ragoriaeth, i ddatblygu meddwl ymholgar, ac i feithrin cariad at ddysgu. Wrth anelu at y safonau uchaf o addysg academaidd, rydym hefyd yn hyrwyddo ethos moesol cryf yn seiliedig ar egwyddorion Cristnogol i roi cwmpawd moesol cadarn i'n disgyblion i gynnal eu bywydau o fewn bywyd cyfoes Prydain. Mae'r ysgol yn meithrin y plant yn y gorau o werthoedd Prydeinig a Chymreig, ac yn dathlu'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru fel rhan o gymuned Gymraeg ehangach yn Llundain.



Our school has a strong ethos of encouraging our pupils to work for excellence in every endeavour, to develop an enquiring mind, and to acquire a love of learning. Whilst aiming for the highest standards of academic education, we also promote a strong moral ethos based on Christian principles to provide our pupils with a sound moral compass to conduct their lives within contemporary British life. The school nurtures the children in the best of British and Welsh values, and celebrates the Welsh language and culture as part of a wider Welsh community in London.

Ein Hamcanion / *Our Aims*

- Datblygu sgiliau annibyniaeth, gwydnwch a'r gallu i ddatrys problemau fel y gallant lywio bywyd y tu hwnt i'r ysgol gynradd
- Cynnal amgylchedd diogel a hapus lle mae pob disgybl yn cael cyfle i ddatblygu'n bersonol, yn gorfforol, yn gymdeithasol, yn academaidd ac yn ysbrydol
- Addysgu cwricwlwm creadigol ac ysgogol gydag ystod eang o brofiadau dysgu i ddiwallu gwahanol anghenion disgyblion unigol
- Creu partneriaeth gyda rhieni lle maent yn cymryd rhan weithredol yn addysg eu plentyn
- Darparu addysg Gristnogol ond hefyd dysgu a thynnu o grefyddau eraill y byd
- Sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle cyfartal i ddatblygu ei botensial

- *To develop the skills of independence, resilience and the ability to solve problems so that they may navigate life beyond primary school*
- *To maintain a safe and happy environment in which all pupils have the opportunity to develop personally, physically, socially, academically and spiritually*
- *To teach a creative and stimulating curriculum with a wide range of learning experiences to meet the differing needs of individual pupils.*
- *To create a partnership with parents where they are actively engaged in their child's education*
- *To provide a Christian based education but also learning and drawing from other world religions*
- *To ensure that every pupil has an equal opportunity to develop his or her potential*

2. Y CWRICWLWM / THE CURRICULUM

Trosolwg / *Overview*

Rydym yn dilyn Cwricwlwm i Gymru 2022. Yn ogystal, ar gyfer disgyblion 3-5 oed rydym yn dilyn cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen Blynyddoedd Cynnar (Lloegr).

We follow the Curriculum for Wales 2022. In addition, for pupils aged 3-5 we follow the Early Years Foundation Phase (England) curriculum.

Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar / *Early Years Foundation Stage*

Mae disgyblion yng Nghyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar yn gweithio tuag at ddau ar bymtheg o 'Nodau Dysgu Cynnar' drwy weithio ar draws saith 'Maes Dysgu a Datblygu'.

Pupils in the Early Years Foundation Stage work towards seventeen 'Early Learning Goals' by working across seven 'Areas of Learning and Development'.

Meysydd Dysgu a Datblygu / *Areas of Learning and Development*

- Cyfathrebu ac Iaith / *Communication and Language*
- Datblygiad Personol, Cymdeithasol ac Emosiynol / *Personal, Social and Emotional Development*
- Datblygiad Corfforol / *Physical Development*
- Deall y Byd / *Understanding the World*
- Celfyddydau Mynegiannol a Dylunio / *Expressive Arts and Design*
- Mathemateg / *Mathematics*
- Llythrennedd / *Literacy*



Pan fydd plant yn gweithio ar draws y saith 'Maes Dysgu a Datblygu' hyn maent yn dysgu drwy chwarae mewn gweithgareddau a gychwynnir gan y plentyn.

When children are working across these seven 'Areas of Learning and Development' they learn through play in child-initiated activities.

Cwricwlwm i Gymru / *Curriculum for Wales*

Y Pedwar Diben / *The Four Purposes*

Mae Cwricwlwm Cymru 2022 yn seiliedig ar 'Y Pedwar Diben' a dyma sylfaen popeth sy'n digwydd yn ein hysgol. Mae dilyn 'Y Pedwar Diben' yn caniatáu i ni sicrhau bod disgyblion yn:

Curriculum for Wales 2022 is based on 'The Four Purposes' and these are the foundation of everything that happens in our school. Following 'The Four Purposes' allows us to ensure that are pupils are:

- Unigolion iach, hyderus / *Healthy, confident individuals*
- Cyfranwyr mentrus, creadigol / *Enterprising, creative contributors*
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus / *Ethical, informed citizens*
- Dysgwyr uchelgeisiol, galluog / *Ambitious, capable learners*

Rydym yn hyrwyddo 'Y Pedwar Diben' i'n disgyblion drwy'r cymeriadau canlynol:

We promote 'The Four Purposes' to our pupils through the following characters:

Aled Ar Eich Marciau	Bleddyn Y Byd sy'n Bwysig	Lleucu Llawn Syniadau	Mari Mynd Amdani
			
Iach / *Healthy* Hyderus / *Confident*	Egwyddorol / *Ethical* Gwybodus / *Informed*	Mentrus / *Enterprising* Creadigol / *Creative*	Uchelgeisiol / *Ambitious* Galluog / *Capable*



Sgiliau Trawsgwricwlaidd / *Cross-curricular Skills*

Trefnir y 'Sgiliau Trawsgwricwlaidd' ar draws tri fframwaith.

The 'Cross-curricular Skills' are arranged across three frameworks.

- Llythrennedd / *Literacy*
- Rhifedd / *Numeracy*
- Cymhwysedd Digidol / *Digital Competency*

Rydym yn hyrwyddo'r 'Sgiliau Trawsgwricwlaidd' i'n disgyblion drwy'r cymeriadau canlynol:

We promote the 'Cross-curricular Skills' to our pupils through the following characters:

Delyth Digidol	Llywelyn Llythrennedd	Rhian Rhifedd
		

Datblygir o leiaf un o'r sgiliau hyn ym mhob gwers a addysgwn.

At least one of these skills is developed in each lesson that we teach.

Meysydd Profiad Dysgu / *Areas of Learning Experience*

Trefnir y dysgu ar draws 'Chwe Maes Dysgu a Phrofiad'.

The learning is arranged across 'Six Areas of Learning and Experience'.



- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu / *Languages, Literacy and Communication*
- Mathemateg a Rhifedd / *Mathematics and Numeracy*
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg / *Science and Technology*
- Y Dyniaethau / *Humanities*
- Iechyd a Lles / *Health and Wellbeing*
- Y Celfyddydau Mynegiannol / *Expressive Arts*

Rydym yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i blant ddatblygu ym mhob un o'r meysydd hyn.

We offer regular opportunities for children to develop in each of these areas.

Camau Cynnydd / *Progression Steps*

Trefnir Cwricwlwm i Gymru yn 'Camau Cynnydd', y mae tri ohonynt yn berthnasol i'n hysgol.

Curriculum for Wales is arranged in 'Progression Steps', three of which are relevant to our school.

- Cam Cynnydd 1 (Meithrin a Derbyn) / *Progression Step 1 (Nursery and Reception)*
- Cam Cynnydd 2 (Blynyddoedd 1, 2 a 3) / *Progression Step 2 (Years 1, 2 and 3)*
- Cam Cynnydd 3 (Blynyddoedd 4, 5 a 6) / *Progression Step 3 (Years 4, 5 and 6)*

<u>Cam Cynnydd 1 – Dysgu Drwy Chwarae / *Progression Step 1 – Learning Through Play*</u>



Mae dysgu drwy chwarae ac archwilio yn rhan annatod o Gam Cynnydd 1. Yn y dosbarth hwn dilynir y 'Cyfnod Sylfaen Blynyddoedd Cynnar' ar gyfer plant o dan 5 oed yn Lloegr. Rydym yn darparu rhaglen gyfoethog o ddysgu dwyieithog, sy'n caniatáu i'r disgyblion ddatblygu yn naturiol drwy ddull trawsgwricwlaidd.

Learning through play and exploration is integral to Progression Step 1. Within this class the 'Early Years Foundation Stage' for children under 5 years of age in England is followed.

We provide a rich programme of bilingual learning, which allows for pupils' natural development through a cross-curricular approach.

Camau Cynnydd 2 a 3 - Anelu'n Uchel, Gweithio'n Galed, Bod yn Garedig /
Progression Steps 2 and 3 - Aim High, Work Hard, Be Kind



Mae gan Gamau Cynnydd 2 a 3 amgylchedd dysgu ysgogol a chyffrous lle caiff disgyblion eu hannog yn gyson i fynegi eu hunain mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae disgyblion yn profi gwahanol arddulliau dysgu ac addysgu ac rydym yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu medrau annibynnol.

Progression Steps 2 and 3 have a stimulating and exciting learning environment in which pupils are constantly encouraged to express themselves in a variety of ways. Pupils experience different learning and teaching styles and we place a strong emphasis on developing independent skills.

Asesiadau / *Assessments*

Mae asesiadau tymhorol a monitro rheolaidd yn sicrhau bod cynnydd disgyblion yn cael ei olrhain yn ofalus ym mhob pwnc.
Termly assessments and regular monitoring ensures that pupils' progress is closely tracked in all subjects.



Cynhwysiant / Inclusion

Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd ei lawn botensial waeth beth fo'i gefndir neu ei anghenion addysgol. Datblygir cyd-barch, cefnogaeth, dealltwriaeth a goddefgarwch rhwng disgyblion drwy ein dysgu cynhwysol. Mae Ysgol Gymraeg Llundain yn annog pawb i gydweithio. Yn ystod amser chwarae, gwelir y plant hŷn yn aml yn gofalu am y plant iau ac rydym yn sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn cael ei adael allan. Credwn fod amser chwarae hapus yr un mor bwysig â'r addysg fwy ffurfiol yn yr ystafell ddosbarth.

We strive to ensure that each and every pupil reaches their full potential regardless of background or educational needs. Mutual respect, support, understanding and tolerance are developed between pupils through our inclusive learning. Ysgol Gymraeg Llundain encourages everyone to work together. During playtime, the older children are often seen looking after the younger ones and we make sure no child is left out. We believe that a happy playtime is just as important as the more formal education in the classroom.

Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd / *Special Educational Needs and Disability*

Credwn yn gryf mewn ffocws "Addysgu Ansawdd yn Gyntaf" ym mhob gwers ac ar draws y ddarpariaeth i sicrhau bod pob disgybl yn gallu cael mynediad i'r cwricwlwm, waeth beth fo'i arddull ddysgu neu ei angen ychwanegol. Ein nod yw nodi, cyn gynted â phosibl, yr holl blant sydd angen cymorth ychwanegol neu wahaniaethol er mwyn symud ymlaen. Ar ôl eu nodi, rydym yn gweithio gyda rhieni mewn perthynas gydweithredol i benderfynu ar y camau nesaf ac i weithredu'r cymorth ychwanegol sydd ei angen.

We strongly believe in a focus of "Quality First Teaching" within all lessons and across the provision to ensure all pupils are able to access the curriculum, regardless of learning style or additional need. We aim to identify, at the earliest possible opportunity, all children who need additional or differentiated support in order to progress. Once identified, we work together with parents in a collaborative relationship to decide on next steps and to implement the additional support needed.

Fel y bo'n briodol, rydym yn darparu cymorth grŵp bach neu 1:1 i blant ag anghenion ychwanegol. Mae'r ymyraethau a'r darpariaethau ychwanegol 1:1 hyn wedi'u personoli i sicrhau bod rhwystrau i ddysgu yn cael eu dileu a bod cynnydd yn cael ei gyflawni.

As appropriate, we provide small group or 1:1 support for children with additional needs. These 1:1 additional interventions and provisions are personalised to ensure barriers to learning are removed and that progress is achieved.

Ieithoedd Tramor Modern / *Modern Foreign Languages*



Mae sgiliau a datblygiad iaith yn rhan allweddol o'n dysgu. Yn ogystal â'r addysgu dwyieithog, mae disgyblion Cam Cynnydd 3 hefyd yn derbyn sesiwn Iaith Dramor Fodern (Ffrangeg) wythnosol fel rhan o'u cwricwlwm, ac mae amlygiad i ieithoedd eraill yn digwydd achlysurol ar draws yr ysgol drwy eirfa, caneuon neu ymadroddion allweddol fel sy'n briodol i'r dysgu.

Language skills and development are a key part of our learning. In addition to the bilingual teaching, KS2 pupils also receive a weekly Modern Foreign Language (French) session as part of their curriculum, and exposure to other languages occurs incidentally across the school through key vocabulary, songs or phrases as appropriate to the learning.

3. GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH / WORKING IN PARTNERSHIP

Bwrdd y Cyfarwyddwyr / *Board of Directors*

Mae aelodau Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn cynnig ystod eang o sgiliau ac arbenigedd ac maent yn atebol yn ôl y gyfraith am reoli'r ysgol.

The members of the Board of Directors offer a wide range of skills and expertise and are accountable in law for the management of the school.

Maent yn cyflawni tair swyddogaeth strategol graidd:

- Sicrhau eglurder gweledigaeth, ethos a chyfeiriad strategol
- Dwyn yr Pennaeth i gyfrif am berfformiad addysgol yr ysgol a'i disgyblion
- Sicrhau rheolaeth ariannol ddarbodus ar yr ysgol

They serve three core strategic functions:

- *Ensuring clarity of vision, ethos and strategic direction*
- *Holding the Headteacher to account for the educational performance of the school and its pupils*
- *Ensuring prudent financial management of the school*

Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd ddwywaith y tymor. Dirprwyir dyletswyddau penodol i is-bwyllgorau sy'n cyfarfod yn amlach.

Board meetings are held twice a term. Certain duties are delegated to sub-committees which meet on a more frequent basis.



Rhieni mewn partneriaeth / *Parents in partnership*

Mae unigrywiaeth ein hysgol yn rhoi digon o gyfle i rieni gymryd rhan ym mywyd yr ysgol mewn amrywiaeth o weithgareddau fel Celf a Chrefft, paratoadau a gweithgareddau

Eisteddfod yr Urdd, sesiynau canu, drama a darllen. Mae cefnogaeth ac arbenigedd rhieni yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr yma. Os oes gennych ddiddordeb mewn helpu, siaradwch ag athro/athrawes eich plentyn.

The uniqueness of our school gives plenty of scope for parents to become involved in the life of the school in a variety of activities such as Arts and Crafts, Urdd Eisteddfod preparations and activities, singing, drama and reading sessions. Parents' support and expertise is greatly valued here. If you are interested in helping, please talk to your child's teacher.

Cyfathrebu â'r rhieni / *Communication with parents*



Credwn yn gryf fod meithrin perthynas rhwng y cartref a'r ysgol yn hanfodol ar gyfer datblygiad a chynnydd plentyn. Mae rhieni bob amser yn cael gwybod am ddatblygiad eu plant ac fe'u hanogir i atgyfnerthu dysgu gartref, er mwyn cyflymu'r cynnydd.

We strongly believe that home-school relationships are essential for a child 's development and progress. Parents are always informed of their children's development and are encouraged to reinforce learning at home, in order to accelerate the progress.

- Mae gennym berthynas waith agos iawn gyda'n rhieni
- Rydym wedi ymrwymo i gyfathrebu'n rheolaidd ac yn agored â rhieni a gofalwyr. Rydym yn gwneud hyn drwy gylchlythyrau wythnosol, holiaduron, digwyddiadau codi arian, llyfrynnau cyswllt darllen rhwng y cartref a'r ysgol, hysbysfwrdd rhieni a blychau awgrymiadau.
- Gwahoddir teuluoedd yn rheolaidd i wasanaethau, perfformiadau, mabolgampau, diwrnodau agored ac i Nosweithiau Rhieni bob tymor.
- Mae'r staff bob amser yn hapus i gyfarfod â rhieni a gofalwyr i drafod unrhyw bryderon. Mae gwefan yr ysgol hefyd yn llawn gwybodaeth gan gynnwys copïau o bolisïau allweddol, gwybodaeth am y cwricwlwm a thudalen disgyblion.

- *We have a very close working relationship with our parents*
- *We are committed to regular and open communication with parents and carers. We do this through weekly newsletters, questionnaires, fundraising events, home-school reading link booklets, parents' notice board and suggestion boxes.*
- *Families are regularly invited to assemblies, performances, sports day, open days and to termly Parents' Evenings.*
- *Staff are always happy to meet with parents and carers to talk through any concerns. The school's website is also full of information including copies of key policies, curriculum information and a pupil page.*



Cymdeithas Rieni, Athrawon a Ffrindiau / *Parent, Teacher and Friends Association*

Mae'r CRaFf yn cefnogi bywyd a gwaith yr ysgol ac mae'n agored i rieni a gofalwyr. Mae'n trefnu digwyddiadau codi arian sy'n cynnwys teuluoedd yr ysgol a'r gymuned leol ehangach. Mae'r arian a godir yn darparu arian hanfodol i gynnal yr ysgol.

The PTFA supports the life and work of the school and is open to parents and carers. It organises fundraising events involving the school families and the wider local community. Monies raised provide vital funds to maintain the school.

4. DIOGELU DISGYBLION / KEEPING PUPILS SAFE

Diogelu Plant / *Safeguarding*

Mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr a staff Ysgol Gymraeg Llundain yn llwyr gydnabod eu cyfrifoldeb ac mae ganddynt ran lawn a gweithredol i'w chwarae wrth amddiffyn ein disgyblion rhag niwed. Rydym yn sicrhau bod ein hysgol yn darparu amgylchedd gofalgar, cadarnhaol a diogel a bod yr holl Staff yn cael eu hyfforddi'n flynyddol mewn materion diogelu. Addysgir disgyblion sut i gadw'n ddiogel, gan gynnwys defnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel, at bwy i droi am help. Mae'r ysgol yn diogelu data disgyblion ac yn cydymffurfio â'r GDPR.

The Board of Directors and staff of Ysgol Gymraeg Llundain fully recognise their responsibility and have a full and active part to play in protecting our pupils from harm. We ensure that our school provides a caring, positive, safe environment and that all Staff are trained annually in matters of safeguarding. Pupils are taught how to keep safe, including the safe use of the internet, and who to turn to for help. The school safeguards pupil data and is compliant with the GDPR.

Mae ein cwricwlwm ABGI yn cynnwys pynciau cyffrous wedi'u gwahaniaethu yn ôl oedran fel bod disgyblion yn dysgu sut i gadw'n ddiogel:

- fi a fy nheulu
- diogelwch yn y cartref a diogelwch ar y ffyrdd
- addysg rhyw a pherthnasoedd
- iechyd meddwl a lles
- addysg dinasyddiaeth
- cam-drin cyfoedion
- e-ddiogelwch (cadw'n ddiogel ar-lein yn yr ysgol ac yn y cartref)
- radicaleiddio ac eithafiaeth

Our PSHE curriculum includes exciting topics differentiated by age so pupils learn how to keep safe:

- *myself and family*
- *safety in the home and road safety*
- *sex and relationship education*
- *mental health and wellbeing*
- *education for citizenship*
- *peer-on-peer abuse*
- *e-safety (staying safe online at school and at home)*
- *radicalisation and extremism*



Absenoldeb / *Absence*

Os na all eich plentyn fynychu'r ysgol oherwydd salwch, ffoniwch neu e-bostiwch swyddfa'r ysgol ar y diwrnod cyntaf o salwch. Dilynwch gyngor y GIG os nad ydych yn siŵr a ddylai eich plentyn fynychu'r ysgol ac ystyriwch y canllawiau a argymhellir. http://www.nhs.uk/Livewell/Yourchildatschool/Pages/Illness.aspx

Gellir dod o hyd i bolisi'r ysgol ar gyfer Presenoldeb, Cofrestru a Phrydlondeb ar-lein hefyd.

If your child cannot attend school due to illness please telephone or email the school office on the first day of illness. Please follow NHS advice if unsure whether your child should attend school and note the recommended guidelines. http://www.nhs.uk/Livewell/Yourchildatschool/Pages/Illness.aspx

The school policy for Attendance, Registration and Punctuality can also be found online.

Damweiniau / *Accidents*

Cofnodir pob damwain sydd angen triniaeth yn ein llyfr damweiniau. Gofynnwn i'r oedolyn sy'n gyfrifol am gasglu'r plentyn lofnodi'r llyfr i gadarnhau ei fod wedi cael gwybod am y digwyddiad. Os bydd angen triniaeth feddygol bellach ar ddisgybl, yn ein barn ni, byddwn yn cysylltu â chi ar unwaith.

Sicrhewch fod gennym eich gwybodaeth gyswllt ddiweddaraf.

All accidents requiring treatment are recorded in our accident book. We ask the adult responsible for collecting the child to sign the book to confirm they have been informed of the incident. If, in our opinion, a pupil requires further medical treatment, we will contact you immediately.

Please ensure we have your updated contact information.

5. GWYBODAETH GYFFREDINOL / GENERAL INFORMATION

Y Diwrnod Ysgol

Oriau'r Ysgol

Sesiwn y bore:	9.00 a.m. – 12:00 p.m. (Cam Cynnydd 1)
	9.00 a.m. – 12:10 p.m. (Camau Cynnydd 2 a 3)
Sesiwn y Prynhawn:	1:10 p.m. – 3:30 p.m. (Cam Cynnydd 1)
	1:10 p.m. – 3:30 p.m. (Camau Cynnydd 2 a 3)

Mae yna ddechrau meddal i'r diwrnod o 8.40am.

The School Day

School Hours

Morning Session:	*9.00 a.m. – 12:00 p.m. (Progression Step 1)*
	9.00 a.m. – 12:10 p.m. (Progression Steps 2 and 3)
Afternoon Session:	*1:10 p.m. – 3:30 p.m. (Progression Step 1)*
	1:10 p.m. – 3:30 p.m. (Progression Steps 2 and 3)

There is a soft start to the day from 8.40am.

Trefniadau Derbyn / *Admissions Arrangements*



Mae Ysgol Gymraeg Llundain yn Ysgol Annibynnol sydd â statws elusennol. Mae'r ysgol yn croesawu disgyblion o deuluoedd sydd am i'w plant dderbyn addysg ddwyieithog yn y Gymraeg/Saesneg. Rydym yn ysgol nad yw'n ddewisol ac yn derbyn disgyblion heb gyfeirio at allu neu ddawn. Cyfeiriwch at ein Polisi Derbyn

cynhwysfawr (sydd ar gael ar ein gwefan neu o swyddfa'r ysgol) am ragor o wybodaeth.

Ysgol Gymraeg Llundain is an Independent School with charitable status. The school welcomes pupils from families who want their children to receive a bi-lingual education in Welsh/English. We are a non-selective school and admit pupils without reference to ability or aptitude. Please refer to our comprehensive Admissions Policy (available on our website or from the school office) for further information.

Ffioedd / *Fees*

Y ffioedd o Ionawr 2027 ar gyfer plant 5 oed a throsodd yw £4788 y flwyddyn neu £400 y mis. Gall y Grant Addysg Feithrin ddarparu 15 awr o addysg feithrin am ddim nes bod plentyn yn troi'n 5. Telir ffioedd yn fisol drwy archeb sefydlog dros 12 mis y flwyddyn academaidd mewn rhandaliadau cyfartal. Caiff y ffioedd eu hadolygu'n flynyddol. I gael rhagor o fanylion am y ffioedd, cysylltwch â'r ysgol.

Mae gennym Bolisi Ffioedd a Gollyngiadau ac rydym yn derbyn **pob plentyn** waeth beth fo'i allu i dalu'r ffioedd llawn.

The fees from January 2027 for children 5 years old and above are £4788 per year or £400 per month. The Nursery Education Grant can provide 15 hours of free nursery education until a child turns 5. Fees are paid monthly by standing order over the 12 months of the academic year in equal instalments. The fees are reviewed annually. For further details about the fees, please contact the school.

*We have a Fees and Dispensation Policy and **accept all children** regardless of ability to pay the full fees.*

Cytundeb Cartref-Ysgol / *Home-School Agreement*

Credwn fod partneriaeth agos rhwng yr ysgol, rhieni/gofalwyr a'r disgybl yn hanfodol. Gofynnwn i'r holl rieni/gofalwyr a disgyblion ymrwymo i'n Cytundeb Cartref/Ysgol pan gânt eu derbyn, ac wedyn bob blwyddyn academaidd.

We believe that a close partnership between the school, parents/carers and the pupil is essential. We request that all parents/carers and pupils sign up to our Home/School Agreement upon admission, and subsequently each academic year.



Gwisg Ysgol / *School Uniform*

Mae'r wisg ysgol ar gael i'w harchebu ar unrhyw adeg gan gyflenwyr yr ysgol – Price & Buckland. Ewch i **www.pbparentsonline.co.uk/londonwelshschool**. Mae'r wisg ddyddiol yn cynnwys crys polo coch a siwmper neu gardigan werdd, sgert neu diwnig werdd i'r merched a throwsus llwyd i'r bechgyn. Mae hefyd gwisg ysgol ffurfiol sy'n cynnwys crys gwyn, tei ysgol coch a gwyrdd a blaser ar gyfer achlysuron arbennig a pherfformiadau.

*The school uniform is available to order at any time from the school suppliers – Price & Buckland. Please visit **www.pbparentsonline.co.uk/londonwelshschool**. The daily uniform consists of a red polo shirt and green jumper/cardigan, green skirt or tunic for girls and grey trousers for boys. There is also a formal uniform consisting of a white shirt, red and green school tie and blazer for events and performances.*

Gwaith Cartref / *Homework*

Gosodir gwaith cartref yn wythnosol gyda llythrennedd, rhifedd a gwaith thematig yn cylchdroi. Mae hyn yn rhan o'n partneriaeth effeithiol rhwng yr ysgol, rhieni a gofalwyr. Mae gwaith cartref yn atgyfnerthu'r hyn y mae'r disgyblion wedi'i ddysgu yn yr ystafell ddosbarth.

Homework is set weekly with a rotation of literacy, numeracy and thematic based work. This is part of our effective partnership between school, parents and carers. Homework reinforces that which the pupils have learned in the classroom.

Gweithgareddau'r Ysgol a Chlybiau Allgyrsiol / *School Activities and Extra-Curricular Clubs*



Mae'r ysgol yn cynnig hyfforddiant cerddoriaeth breifat yn ystod amser ysgol ac ar hyn o bryd mae gwersi piano a gwersi canu ar gael gan arbenigwyr cerddoriaeth.

The school offers private music tuition during school time and at present piano lessons and singing lessons are available from music specialists.

Rydym yn cynnig darpariaeth gofal cofleidiol cyn ac ar ôl ysgol. Mae ein darpariaeth gofal cofleidiol cyn-ysgol ar gael ar foreau Llun, Mawrth, Mercher, Iau a Gwener rhwng 8.00am ac 8.40am. Mae ein darpariaeth gofal cofleidiol ar ôl ysgol ar gael ar brynhawniau Llun, Mawrth, Mercher a Iau rhwng 3.30pm a 5.00pm.

We offer a before and after-school wraparound care provision. Our before-school wraparound care provision is available on Monday, Tuesday, Wednesday, Thursday and Friday mornings from 8.00am to 8.40am. Our after-school wraparound care provision is available on Monday, Tuesday, Wednesday and Thursday afternoons from 3.30pm to 5.00pm.

Cynhelir Clwb yr Urdd ar ól ysgol ar ddydd Iau sydd yn cynnig cyfleoedd i baratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd fel canu, adrodd, gweithgareddau drama, crochenwaith a mwy. Mae hefyd Aelwyd Llundain ar gyfer cyn-ddisgyblion neu blant uwchradd. Cysylltwch á'r ysgol am fwy o wybodaeth. Mae'r holl wirfoddolwyr sy'n helpu yn y Clybiau yn cael eu gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

The Urdd Club is held after school on Thursdays which provides opportunities for preparation for the Urdd Eisteddfod such as singing, recitation, drama activities, pottery and much more. There is also an Aelwyd Urdd club for Secondary aged children. Please contact the school for details. All volunteers who help at the Clubs are DBS checked.



Dathlu ein Disgyblion a Gwasanaethau / *Celebrating our Pupils and Assemblies*

Mae gwasanaethau yn rhan annatod o'n bywyd ysgol ac yn helpu i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys cyflwyniadau a pherfformiadau gan y disgyblion, y gwahoddir teuluoedd a ffrindiau i'w mynychu. Pan fydd disgyblion wedi cael wythnos eithriadol o gyflawniad, caiff hyn ei gydnabod a'i ganmol. Weithiau bydd disgyblion yn dod adref gyda thystysgrif 'Pwyntiau Clod' am ennill y nifer fwyaf o bwyntiau clod yn eu dosbarth yn ystod yr wythnos honno, neu dystysgrif 'Pedwar Pwerus' am arddangos rhinweddau un o 'Y Pedwar Diben' yn ystod yr wythnos.

Assemblies are an integral part of our school life and help to promote spiritual, moral, social and cultural development. The assemblies include presentations and performances by the pupils, to which families and friends are invited to attend. When pupils have had an outstanding week of achievement, this will be

recognised and praised. Pupils will occasionally come home with a 'Pwyntiau Clod' or 'Praise Points' certificate for having earned the most praise points in their class during that week, or a 'Pedwar Pwerus' or 'Fantastic Four' certificate for having exhibited the qualities of one of 'The Four Purposes' during the week.

Bwyta'n Iach / *Healthy Eating*

Nid oes gennym gyfleuster i ddarparu cinio. Rydym yn annog bwyta'n iach felly rhowch focs bwyd maethlon ac iach i'ch plentyn. Darperir llaeth i ddisgyblion yng Nghamau Cynnydd 1 a 2 yn ystod amser chwarae'r bore. Dewch â darn o ffrwyth ar gyfer amser byrbryd. Rhowch wybod i ni os yw eich plentyn yn dioddef o unrhyw alergeddau, asthma neu anoddefiadau bwyd.

We do not have a facility to provide lunch. We encourage healthy eating so please provide a nutritious and healthy lunch box for your child. Pupils in the Foundation Phase are provided with milk during the morning playtime. Please bring a piece of fruit for snack time. Please let us know if your child suffers from any allergies, asthma or food intolerances.

Dyddiadau pwysig, gwyliau neu ddiwrnodau hyfforddiant / *Important dates, holidays and training days*

Mae gwybodaeth gyfredol ar gael ar ein gwefan.
Current information is available on our website.

6. MANYLION CYSWLLT / CONTACT DETAILS

Mae croeso i chi gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod:
You are welcome to contact us using the contact details below:

Ysgol Gymraeg Llundain
Canolfan Gymunedol Hanwell / *Hanwell Community Centre*
Westcott Crescent
Llundain / *London*

W7 1PD

Ffôn / *Telephone*: 020 8575 0237

E-bost / *Email*: info@ysgolgymraegllundain.co.uk

Cofiwch, gallwch hefyd gael y diweddaraf o'n hysgol drwy ein platfformau cyfryngau cymdeithasol:
Remember, you can also get the latest from our school via our social media platforms:

Facebook: Ysgol Gymraeg Llundain

Twitter: @YGLlundain

Instagram: @YGLlundain